

GWENLLIAN
Tywysoges a gwrol ryfelwraig o Gymru
870 mlynedd yn ôl, yn nheyrnas y Deheubarth (de-orllewin Cymru), roedd y Cymry yn brwydro’n ôl yn erbyn y Normaniaid a oedd wedi concro rhannau o'r wlad. Dyma stori Gwenllian, merch Gruffydd ap Cynan, tywysog Gwynedd (gogledd Cymru).
Cadw
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Darluniau ©Pete Fowler 2015


Priododdd Gwenllian â Gruffudd ap Rhys, tywysog y Deheubarth. Fe wnaeth eu priodas uno dau o deuluoedd a theyrnasoedd mwyaf grymus Cymru mewn cyfnod cythryblus. Dechreuodd Gwenllian a Gruffudd ar eu bywyd priodasol yn Ninefwr.
Roedd y Normaniaid yn ymosod yn gyson ar eu tir.
Felly, cuddiodd y cwpl yn y coedwigoedd trwchus a'r mynyddoedd, lle magodd Gwenllian bedwar mab.
O'r mynyddoedd, ffurfiodd Gruffudd fyddin ac arweiniodd gudd-ymosodiadau.
A chynlluniodd sut i drechu'r Normaniaid.
Daeth ei gyfle ym 1135 pan fu farw Brenin Lloegr.
Roedd merch a nai'r brenin ill dau eisiau rheoli Lloegr.


Tra tynnwyd sylw'r arglwyddi
Normanaidd gan y frwydr am y goron,
dechreuodd y Cymry ar eu gwrthryfel.
Teithiodd Gruffudd i'r gogledd i gael cymorth gan deulu
Gwenllian a chryfhau ei fyddin. Tra'r oedd oddi cartref,
clywodd Gwenllian fod yr arglwydd Normanaidd Maurice
de Londres...
... yn cynllunio ymosodiad yn erbyn y gwrthryfelwyr o Gymru.
Yn hytrach nag aros i Gruffudd ddychwelyd, teimlai Gwenllian
fod yn rhaid iddi weithredu. Arweiniodd fyddin, gan gynnwys ei
meibion Morgan a Maelgwn...
... i ymosod ar y Normaniaid
yng Nghastell Cydweli.
Brwydrodd Gwenllian a'i gwŷr yn erbyn milwyr Maurice
de Londres ar faes gerllaw'r castell. Er gwaethaf gwroldeb
Gwenllian, trechwyd ei byddin gan y Normaniaid.
Lladdwyd Morgan yn y frwydr
a chipiwyd Gwenllian a Maelgwn.
Ni ddangosodd Maurice de Londres unrhyw
drugaredd. Er mwyn gosod esiampl i holl
wrthryfelwyr Cymru, gorchmynnodd y
dylid torri pen Gwenllian.
Dywedir bod ffynnon wedi tarddu lle bu farw'r dywysoges
Gwenllian ddewr ar ôl brwydro dros dir a rhyddid Cymru.
Gelwir y lle hwnnw yn awr yn Faes Gwenllian.


Ni fu farw Gwenllian yn ofer. Ni pheidiodd y Cymry â brwydro yn erbyn y Normaniaid.
Ymunodd brawd Gwenllian, Owain Gwynedd, â'i gŵr Gruffudd.
Ynghyd â'u byddin fe wnaethon nhw ysgubo ar draws gorllewin Cymru, gan yrru'r Normaniaid o'u tir.
Daeth mab ieuengaf Gwenllian, Rhys ap Gruffudd, yn dywysog y Deheubarth maes o law. Roedd yn filwr ac yn ddiplomydd.
Adenillodd deyrnas ei deulu drwy drafod gyda brenin newydd Lloegr, yn hytrach na brwydro yn ei erbyn.
Fe'i gelwid yn yr Arglwydd Rhys, ac adeiladodd sawl castell. Mae'n bosibl mai ef ddechreuodd y gwaith o adeiladu'r castell cerrig yng Nghydweli.
Roedd yr Arglwydd Rhys wrth ei fodd â barddoniaeth a cherddoriaeth, a chreodd ŵyl gerddoriaeth a llenyddiaeth ym 1176, sy'n cael ei chydnabod erbyn hyn fel yr Eisteddfod gyntaf.
Bu farw'r Arglwydd Rhys ym 1197, ond mae ei etifeddiaeth yn parhau ar ffurf yr Eisteddfod Genedlaethol, sy'n cael ei chynnal bob blwyddyn yng Nghymru.